**CYFARFOD COMISIWN FFINIAU A DEMOCRATIAETH LEOL CYMRU A GYNHALIWYD AR 17 RHAGFYR 2019 YN NHŶ HASTINGS**

**Yn bresennol:** Mr Ceri Stradling (Cadeirydd Dros Dro); Mr David Powell (Dirprwy Gadeirydd Dros Dro); Mrs Julie May a Mr Theodore Joloza.

**Swyddogion CFfDLC a oedd yn bresennol:** Mrs Shereen Williams (Prif Weithredwr); Matt Redmond (Dirprwy Brif Weithredwr); Mr Dave Carr (Rheolwr Cyllid); David Burley (Rheolwr Cymorth Busnes); Mr Tom Jenkins (Rheolwr Arolygon); Mr Huw Blacker (Swyddog Arolygon); Mr Rhys Brooks (Swyddog Arolygon); Mrs Catherine Thomas (Swyddog Cymorth Busnes); Mr Nathan Sweetman (Swyddog Cymorth Busnes).

**Amser Dechrau:** 09:55
**Amser Gorffen:** 14:30

**Ymddiheuriadau:** Dim

## 1. Datganiadau Buddiant

1.1. Datganodd Nathan Sweetman fuddiant ym Mro Morgannwg.
1.2. Datganodd Tom Jenkins fuddiant yn Rhondda Cynon Taf.

Nid oedd y Cadeirydd o'r farn bod unrhyw un o'r datganiadau buddiannau yn atal y swyddogion dan sylw rhag cymryd rhan lawn mewn trafodaethau, heblaw pan oedd y ward etholiadol a oedd yn benodol i unigolyn yn cael ei hystyried.

## 2. Gwybodaeth Friffio gan y Cadeirydd

2.1. Rhoddodd y Cadeirydd ddiweddariad i'r cyfarfod ar y Cyfarfod Rhyng-Gomisiwn a gynhaliwyd yn Llundain ar 28-29 Tachwedd. Dywedodd y bu'n gyfarfod diddorol a chadarnhaol, ac amlygodd gyfraniadau gan Gomisiwn Gogledd Iwerddon ynglŷn â'i Adolygiad Barnwrol; Informed Solutions ynglŷn â defnyddio pyrth TG mewn ymgynghoriadau; Tom Hawthorn o'r Comisiwn Etholiadol ynglŷn â chyflawnder a chywirdeb Cofrestrau Etholiadol; a'r Athro Ron Johnston o Brifysgol Bryste ynglŷn â chyffindwyllo anfwriadol.

2.2. Adroddodd y Cadeirydd hefyd ar y cyfarfod diweddaraf â Llywodraeth Cymru. Disgwyliwyd i Orchymyn Arolwg Cymunedol Sir Fynwy gael ei roi i'r Gweinidog y diwrnod hwnnw fel y gallai'r Comisiwn ddechrau paratoi ar gyfer yr arolwg etholiadol ac y gellid cynnal cyfarfodydd â Chyngor Sir Fynwy yn y Flwyddyn Newydd. Roedd Bil Llywodraeth Leol ac Etholiadau

(Cymru) wedi cael ei drafod hefyd, a byddai'r Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol yn cyfrannu at Sesiwn Dystiolaeth Llywodraeth Cymru ar 9 Ionawr.

2.3. Dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod fod Cadeirydd newydd CFfDLC, sef Debra Williams, wedi cael ei phenodi o 1 Ionawr 2020, am gyfnod o ddwy flynedd, ac y byddai'n cadeirio cyfarfod nesaf y Comisiwn ym mis Ionawr. **Cytunodd** y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol i gysylltu â hi cyn hynny yn gynnar ym mis Ionawr.

2.4. O ran y gŵyn gan aelod o Gyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr, dywedodd y Cadeirydd wrth y cyfarfod na fu unrhyw ddatblygiadau pellach ers i'r Comisiwn anfon ymateb at yr achwynydd.

## 3. Cofnodion cyfarfod y Comisiwn a gynhaliwyd ar 26 Tachwedd 2019

3.1. **Penderfynwyd** cymeradwyo cofnodion y cyfarfod yn gofnod cywir o'r materion a ystyriwyd, yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 4. Materion sy'n Codi

4.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2019 gan y Prif Weithredwr.

4.2. **Penderfynwyd** derbyn yr Adroddiad a nodwyd cynnydd ar y materion canlynol:

4.3. O ran **(Mater 1)**, sef y Rhaglen Newid, adroddwyd bod Llywodraeth Cymru wedi penderfynu peidio â chymryd rhan yn Arolwg y Bobl. Felly, byddai'r Comisiwn yn cynnal ei arolwg ei hun ym mis Chwefror. Roedd y Cynllun Corfforaethol wedi cael ei ddiweddaru â'r Weledigaeth a'r Gwerthoedd newydd, a **chytunwyd** y byddai'r Prif Weithredwr yn ei gyflwyno i gyfarfod nesaf y Comisiwn. Roedd paratoadau wedi cael eu gwneud ar gyfer y diwrnodau hyfforddiant Cwrdd i Ffwrdd ar 23-24 Ionawr, ac roedd y Comisiynwyr wedi cael gwahoddiad i fynychu. **Cytunwyd** gwahodd y Cadeirydd newydd hefyd.

4.4. O ran **(Mater 2)**, sef Gwobr Iechyd y Gweithle Bach, adroddwyd bod y Comisiwn wedi cwblhau a chyflawni'r Wobr hon a fyddai'n para am dair blynedd. Diolchwyd i'r holl staff a fu'n gysylltiedig. **Cytunodd** y Prif Swyddog Gweithredol i roi gwybod i Mrs Julie James ac i roi cyhoeddusrwydd i'r cyflawniad ar Twitter.

4.5. O ran **(Mater 3)**, sef Data Ychwanegol ar gyfer Arolygon – **cytunodd** y Dirprwy Brif Swyddog Gweithredol i ddiwygio'r Tabl Cynnydd Arolygon i ddangos yr amrywiannau.

4.6. O ran **(Mater 4)**, sef yr ymgynghoriad ar y Bil Partneriaeth Gymdeithasol, roedd hyn wedi cael ei gwblhau.

4.7. O ran **(Mater 5)**, sef y Bil Llywodraeth Leol, **penderfynodd** y Cadeirydd a'r Prif Swyddog Gweithredol lunio tystiolaeth y diwrnod wedyn ar gyfer y Sesiwn Dystiolaeth ym mis Ionawr.

4.8. O ran **(Mater 6)**, roedd y prosiect TG wedi cael ei gwblhau a byddai'r Adroddiad Gwersi a Ddysgwyd yn cael ei gynhyrchu ym mis Ionawr gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

4.9. Mater newydd – trafodwyd ymateb drafft i'r Papur Gwyn ar Bartneriaeth Gymdeithasol a **chytunwyd** ar ymateb yn amodol ar rai mân ddiwygiadau.

## 5. Arolwg Bro Morgannwg – Adroddiad Drafft

5.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 9 Rhagfyr 2019 gan y Swyddog Arolygon.

5.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

5.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau – 53</u>**

5.4. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| Saesneg | Cymraeg |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Baruc | Baruc |
| Buttrills | Buttrills |
| Cadoc | Cadog |
| Castleland | Castleland |
| Cornerswell and Llandough | Cornerswell a Llandoche |
| Court | Court |
| Cowbridge | Y Bont-faen |
| Dinas Powys | Dinas Powys |
| Dyfan | Dyfan |
| Gibbonsdown | Gibbonsdown |
| Illtyd | Illtyd |
| Llandow | Llandŵ |
| Llantwit Major | Llanilltud Fawr |
| Peterston-super-Ely | Llanbedr-y-fro |
| Plymouth | Plymouth |
| Rhoose | Y Rhws |
| St Athan | Sain Tathan |
| St Augustine's | St Augustine's |
| St Bride's Major | Saint-y-brid |
| St. Nicholas and Llancarfan | Sain Nicolas a Thresimwn |
| Stanwell | Stanwell |
| Sully | Silli |
| Wenvoe | Gwenfo |

## 6. Arolwg Etholiadol Abertawe – Adroddiad Terfynol

6.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2019 gan y Swyddog Arolygon.

6.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

6.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

6.4. Trafodwyd Asesiadau o Effaith. Cytunwyd y dylid newid y dyddiad o 'ddeng mlynedd' i 'yn dilyn yr arolwg nesaf'.

**Cyfanswm nifer yr aelodau – 75**

6.4 **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|
| Castle | Y Castell |
| St Thomas | Sain Tomos |
| Waterfront | Glannau |
| Bishopston | Llandeilo Ferwallt |
| Fairwood | Llwyntegŵ |
| Gower | Gŵyr |
| Pen-clawdd | Pen-clawdd |
| Pennard | Pennard |
| Mayals | Moelfryn |
| Mumbles | Mwmbwls |
| West Cross | Y Groesffordd |
| Dunvant and Killay | Dyfnant a Chilâ |
| Cockett | Y Cocyd |
| Gowerton | Tregŵyr |

| | |
|---|---|
| Waunarlwydd | Waunarlwydd |
| Llwchwr | Llwchwr |
| Gorseinon and Penyrheol | Gorseinon a Phenyrheol |
| Penllergaer | Penlle'r-gaer |
| Clydach | Clydach |
| Pontarddulais | Pontarddulais |
| Llangyfelach | Llangyfelach |
| Pontlliw and Tircoed | Pontlliw a Thir-coed |
| Llansamlet | Llansamlet |

## 7. Arolwg Etholiadol Rhondda Cynon Taf – Adroddiad Terfynol

7.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2019 gan y Swyddog Arolygon.

7.2. Ystyriodd y Comisiwn gynnwys yr adroddiad, a'r enwau arfaethedig ar gyfer wardiau etholiadol.

7.3. **Cytunwyd** ar yr Adroddiad yn amodol ar fân ddiwygiadau i'w gwneud gan y Swyddog Arolygon cyn dechrau'r broses Sicrhau Ansawdd.

7.4. Trafodwyd Asesiadau o Effaith. Cytunwyd y dylid newid y dyddiad o 'ddeng mlynedd' i 'yn dilyn yr arolwg nesaf'.

**<u>Cyfanswm nifer yr aelodau - 75</u>**

7.5. **Enwau:**

Ystyriodd y Comisiwn yr enwau arfaethedig ar gyfer y wardiau etholiadol. Rhoddir isod restr o'r enwau cytunedig yn Gymraeg ac yn Saesneg.

| **Enw Saesneg** | **Enw Cymraeg** |
|---|---|

| | |
|---|---|
| Cilfynydd | Cilfynydd |
| Cymmer | Y Cymer |
| Glyncoch | Glyncoch |
| Graig and Pontypridd West | Y Graig a Gorllewin Pontypridd |
| Hawthorn and Lower Rhydfelen | Y Ddraenen-wen a Rhydfelen Isaf |
| Pontypridd Town | Tref Pontypridd |
| Rhydfelen Central | Canol Rhydfelen |
| Upper Rhydfelen and Glyn-taf | Rhydfelen Uchaf a Glyn-taf |
| Taffs Well | Ffynnon Taf |
| Trallwng | Trallwng |
| Treforest | Trefforest |
| Ynysybwl | Ynysybwl |
| Church Village | Pentre'r Eglwys |
| Llantwit Fardre | Llanilltud Faerdref |
| Ton-teg | Ton-teg |
| Beddau and Tyn-y-nant | Beddau a Thyn-y-nant |
| Llantrisant and Talbot Green | Llantrisant a Thonysguboriau |
| Llanharry | Llanhari |
| Pont-y-clun Central | Canol Pont-y-clun |
| Pont-y-clun East | Dwyrain Pont-y-clun |
| Pont-y-clun West | Gorllewin Pont-y-clun |
| Brynna and Llanharan | Brynna a Llanharan |
| Tonyrefail West | Gorllewin Tonyrefail |
| Llwyn-y-pia | Llwyn-y-pia |
| Pentre | Pentre |
| Trealaw | Trealaw |
| Treherbert | Treherbert |

| | |
|---|---|
| Treorchy | Treorci |
| Ystrad | Ystrad |
| Hirwaun, Penderyn and Rhigos | Hirwaun, Penderyn a’r Rhigos |
| Aberaman | Aberaman |
| Cwmbach | Cwmbach |
| Mountain Ash | Aberpennar |

## 8. Rheoli Risgiau – Cofrestr Risgiau

8.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2019 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** bod y newidiadau y cytunwyd arnynt yn y cyfarfod diwethaf wedi cael eu gweithredu.

8.2. **Cytunwyd** y gallai risg CR7 gael ei dileu o’r Gofrestr Risgiau.

## 9. Adroddiad ar y Gyllideb

9.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r adroddiad dyddiedig 26 Tachwedd 2019 gan y Rheolwr Cyllid. **Nodwyd** y sefyllfa foddhaol bresennol o ran y gyllideb.

## 10. Polisïau Adnoddau Dynol

10.1. Rhoddwyd ystyriaeth i’r Adroddiad dyddiedig 2 Rhagfyr 2019 gan y Rheolwr Cymorth Busnes.

10.2. Cytunwyd ar ‘Bolisi Blaenswm Cyflog 2019’ a ‘Pholisi Cwynion Cyflogaeth 2019’ yn amodol ar newid y flwyddyn ym mharagraff 4.9.

10.3. Cytunwyd ar ‘Bolisi Cyfrinachedd, Diogelwch a Gwybodaeth Swyddogol 2019’ a ‘Pholisi Diogelu Data 2019’ heb unrhyw newidiadau.

10.4. Dylid diwygio paragraff 10.4 pwynt bwled 4 y ‘Polisi Cwynion Cyflogaeth’ i ddatgan ‘Rhaid i bob Swyddog Cwynion Cyflogaeth fod ar lefel Prif Weithredwr neu Ddirprwy Brif Weithredwr (G7) neu uwch. Dylid diwygio paragraff 10.8 i ddatgan ‘Swyddogaeth Adnoddau Dynol’.

## 11. Adroddiad ar gyfarfod y Pwyllgor Archwilio a Sicrhau Risg (ARAC) a gynhaliwyd ar 27 Tachwedd 2019

11.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

11.2. Nodwyd mai un o'r argymhellion archwilio a wnaed yn yr adroddiad archwilio mewnol canol blwyddyn oedd y dylai'r Comisiwn adolygu ei barodrwydd i dderbyn risg ar gyfer y Gofrestr Risg Gorfforaethol. **Cytunwyd** trafod parodrwydd y Comisiwn i dderbyn risg ar ôl penodi Cadeirydd newydd y Comisiwn yng nghyfarfodydd mis Ionawr neu fis Chwefror.

## 12. Adroddiad Adolygu Diogelwch y Cwmwl

12.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 3 Rhagfyr 2019 gan y Rheolwr Cyllid.

12.2. Ystyriodd y Comisiwn yr argymhellion sy'n weddill a nododd farn Cymwysterau Cymru na fyddai'r ymdrech i'w rhoi ar waith yn gymesur ar gyfer corff bach fel y Comisiwn, neu y byddai'n cael effaith negyddol arwyddocaol ar brofiad y defnyddiwr. **Cytunwyd** na fyddai'r Comisiwn yn gweithredu'r argymhellion sy'n weddill.

## 13. Adroddiad ar Gynnydd Arolygon

13.1. Rhoddwyd ystyriaeth i'r Adroddiad dyddiedig 10 Rhagfyr gan y Dirprwy Brif Weithredwr.

13.2. **Nodwyd** mai arolwg etholiadol Castell-nedd Port Talbot yn unig oedd wedi symud ymlaen ers cyfarfod diwethaf y Comisiwn ac y disgwyliwyd i bedwar arolwg arall gael eu cyhoeddi ym mis Ionawr 2020. Roedd eraill wedi gofyn am ohiriad o ganlyniad i Etholiad Cyffredinol.

13.3. Adroddwyd nad oedd Gorchmynion wedi'u derbyn eto ar gyfer unrhyw un o'r Arolygon Etholiadol a gwblhawyd.

13.4. O ran arolwg etholiadol Sir Fynwy, **cytunwyd** cael y ffigurau etholiadol gan Gyngor Sir Fynwy a gwneud paratoadau eraill cyn gynted â phosibl tra'n disgwyl derbyn y Gorchymyn Cymunedol.

13.5. **Cytunwyd** ychwanegu Cyfanswm Treigl at waelod y tabl Dadansoddiad o'r Nod o ran Maint Cynghorau, ynghyd â dau fân ddiwygiad.

13.6. **Nodwyd** cynnwys gweddill yr adroddiad.

## 14. Calendr Digwyddiadau

14.1. **Nododd** y Comisiwn gynnwys y Calendr a **chytunwyd** ychwanegu'r hyfforddiant Skype/Diogelwch TG/Arolwg Clir/Gwe-rwydo ar gyfer y Comisiynwyr yn union ar ôl cyfarfod mis Ionawr. I'w drefnu.

## 15. Unrhyw Fater Arall Perthnasol

15.1. Nid oedd unrhyw eitemau eraill i'w trafod.

**Dyddiad y Cyfarfod Nesaf: 28 Ionawr 2020**